Senedd Cymru
**Busnes y Senedd**

# Cymryd rhan mewn Pwyllgor

Gorffennaf 2021

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir gweld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Mae copïau o'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: cysylltu@senedd.cymru

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol neu ddifrïol. Mae'n rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Comisiwn y Senedd a nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys

**Cymryd rhan mewn pwyllgor** ... 3

**Beth yw pwyllgor?** ... 4

**Paratoi tystiolaeth ysgrifenedig neu ddigidol** ... 7

Yr ‘alwad am dystiolaeth ysgrifenedig’ ... 7

Pa wybodaeth y dylech ei chynnwys? ... 8

Sut y dylech roi eich tystiolaeth ysgrifenedig ynghyd? ... 9

Tystiolaeth ddigidol ... 11

Sut i gyflwyno’ch tystiolaeth ... 12

Sut y caiff fy nhystiolaeth ei defnyddio? ... 13

Cyhoeddi tystiolaeth ... 13

Pwyllgorau: pwy yw pwy? ... 15

**Paratoi i fynd i gyfarfod pwyllgor** ... 17

Clywed tystiolaeth lafar ... 17

Paratoi ar gyfer cyfarfod pwyllgor ... 19

Sut y gall tîm clercio’r pwyllgor eich helpu chi ... 19

Sut y gallwch chi helpu tîm clercio’r pwyllgor ... 21

**Mynd i Gyfarfod Pwyllgor: ar ddiwrnod y cyfarfod** ... 22

Cyrraedd ... 22

Yn ystod y cyfarfod ... 23

Ar ôl y cyfarfod ... 25

**Mathau eraill o dystiolaeth** ... 26

Cyfarfodydd pwyllgor anffurfiol ... 26

Ymweliadau ... 26

Defnyddio technoleg ... 27

**Ystyried popeth - cyflwyno adroddiadau** ... 28

Ar ôl yr adroddiad ... 28

# Cymryd rhan mewn pwyllgor



Mae'r Senedd yn gweithio gydag ystod eang o unigolion a grwpiau wrth ymgymryd â'i waith craffu ar bolisi a deddfwriaeth. Nod y llyfryn hwn yw rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch os gofynnir i chi gymryd rhan yng ngwaith pwyllgorau.

Os ydych chi wedi gweithio gyda phwyllgorau o'r blaen, efallai yr hoffech atgoffa eich hun o'r canllawiau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a digidol.

I'r rhai ohonoch chi sydd eisoes wedi rhoi tystiolaeth i bwyllgor, cofiwch y gallwch ddilyn gwaith pob pwyllgor ar dudalen gartref y pwyllgorau.

Mae'r Senedd wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl Cymru yn ei gwaith. Os ydych chi'n teimlo bod angen addasu'r broses safonol er mwyn eich galluogi i gyfrannu'n llawn, mae croeso i chi drafod eich anghenion gyda'r tîm clercio perthnasol.

# Beth yw pwyllgor?

**1.** Y pwyllgorau yw un o'r dulliau sy'n galluogi'r Senedd i gyflawni ei swyddogaethau statudol a chyfansoddiadol.

**2.** Yn y Senedd, mae pwyllgor yn cynnwys nifer o Aelodau o'r Senedd o grwpiau plaid gwahanol sy'n cael eu penodi gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn i weithio gyda'i gilydd i ymgymryd â gwaith manwl a chyflawni swyddogaethau penodol. Mae'r Senedd hefyd yn penderfynu pwy fydd cadeirydd pob pwyllgor. Ni all aelodau o bwyllgorau'r Senedd, na'r is-bwyllgorau, gynnwys unrhyw un nad yw'n Aelod o'r Senedd.

**3.** Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn rhagnodi pa bwyllgorau y mae'n rhaid eu sefydlu. Maent yn rhoi rhyddid i'r Senedd ddylunio strwythur pwyllgorau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau'r dydd. Maent yn cynnwys gofynion i sicrhau y caiff y prif swyddogaethau a restrir yn y Rheolau Sefydlog eu darparu gan y strwythur pwyllgorau.



**4.** Mae'r Senedd wedi penderfynu ar strwythur pwyllgorau sy'n rhoi pŵer i bwyllgorau graffu ar y llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig ac i graffu ar ddeddfwriaeth, o fewn cylch gwaith pwnc.

**5.** Mae gan y Senedd bwyllgorau sydd wedi'u sefydlu i edrych ar bynciau penodol. Mae pob pwyllgor yn cyflawni tasgau fel edrych ar gyfraith arfaethedig (Bil) neu gynnal ymchwiliad i benderfyniadau polisi a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Gallai penderfyniadau'r pwyllgor gael eu hysgrifennu mewn adroddiad, a gellir trafod hwnnw gan holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn.

**6.** Rhyngddynt, mae pwyllgorau'r Senedd yn edrych ar y meysydd deddfu y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt. Y pynciau hyn yw'r meysydd o fywyd Cymru sydd wedi'u datganoli i Senedd Cymru o Senedd y DU yn Llundain.

**7.** Gall pob pwyllgor archwilio ystod o faterion sy'n dod o fewn ei faes diddordeb (eu cylch gwaith). Nodir cylch gwaith pwyllgor yn ôl ei deitl. Er enghraifft, yn y Bumed Senedd, roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn archwilio materion a oedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

**8.** Gellir gweld rhestr o bwyllgorau cyfredol y Senedd yma: https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/pwyllgorau/

Yn aml mae sawl pwyllgor sy'n gallu archwilio mater penodol. Er enghraifft, gallai mater sy'n ymwneud ag iechyd plant gael ei ymchwilio gan sawl pwyllgor, gan gynnwys:

- y Pwyllgor o'r Senedd sydd â'r cylch gwaith ar gyfer iechyd;
- y Pwyllgor o'r Senedd sydd â'r cylch gwaith ar gyfer materion plant;
- y Pwyllgor Deisebau ar ôl derbyn deiseb yn ymwneud ag iechyd plant; neu
- y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a all edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru wedi gwario arian i wella iechyd plant, ac ati.

**9.** Mae Pwyllgor yn edrych ar fater drwy gynnal 'ymchwiliad'.

**10.** Archwiliad i destun neu faes arbennig yw ymchwiliad, er mwyn gweld beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd, a gweld a ellid gwneud unrhyw welliannau. Ymhlith yr enghreifftiau o ymchwiliadau yn y gorffennol mae edrych i weld a yw prydau ysgol yng Nghymru yn ddigon iach, a ddylai Cymru gael ei thîm criced ei hun, ac edrych ar safon gwasanaethau gofal newyddenedigol yng Nghymru.

**11.** Gall pwyllgor edrych ar unrhyw bwnc o fewn ei gylch gwaith. Gall syniadau ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau ddod o nifer o wahanol leoedd, Mae'r rhain yn cynnwys:

- syniadau Aelodau o'r Senedd, ar sail eu profiadau a'u diddordebau gwleidyddol a phersonol neu drwy gysylltiad â'u hetholwyr;
- awgrymiadau gan unigolion a sefydliadau (drwy gysylltu â phwyllgor cyfan, neu ag aelodau unigol);
- materion a godwyd yn ystod trafodion ehangach y Senedd (e.e. Deisebau a chraffu ar y gyllideb);
- gwaith a wnaed gan bwyllgorau blaenorol (yn enwedig ar ddechrau Senedd newydd);
- dadansoddiad o faterion o bryder amserol / posibl o fewn cylch gwaith pwyllgor, ac a nodwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

**12.** Os oes mater arbennig y teimlwch y dylai pwyllgor edrych arno'n fanwl, gallwch gysylltu â'r pwyllgor neu â'ch Aelodau o'r Senedd i awgrymu hynny. Fel arfer, bydd gan bwyllgor y Senedd flaenraglen waith ar gyfer o leiaf y tri mis nesaf, er y gellir cynnwys materion newydd weithiau.

**13.** Pan gynigir deddf newydd (Bil), bydd y Pwyllgor Busnes yn dewis pa bwyllgor sy'n gyfrifol am archwilio'r gyfraith newydd arfaethedig. Bydd pwyllgor fel arfer yn cynnal ymchwiliad i effaith fwriadedig y gyfraith arfaethedig. Bydd y pwyllgor yna'n archwilio'r gyfraith arfaethedig yn fanwl, a gall wneud newidiadau i'r gyfraith arfaethedig cyn iddi gael ei hystyried gan y Senedd gyfan. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y gyfraith arfaethedig, rhaid iddi gael Cydsyniad Brenhinol cyn iddi ddod yn gyfraith (wedyn mae'n dod yn 'Ddeddf y Senedd'). Mae'r broses hon yn cael ei disgrifio'n fanwl yn yr adran 'Canllaw i'r Broses Ddeddfu'.

**14.** Gellir cynnal ymchwiliadau mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallai ymchwiliad olygu bod pwyllgor yn casglu gwybodaeth gan y cyhoedd neu gan sefydliadau penodol. Gelwir y wybodaeth hon yn aml yn 'dystiolaeth'. Bydd pwyllgor weithiau'n casglu tystiolaeth am rai misoedd, ac wedyn yn cyhoeddi adroddiad ac yn ysgrifennu argymhellion i Lywodraeth Cymru.

**15.** Hefyd, bydd ymchwiliadau weithiau yn golygu bod pwyllgor yn casglu tystiolaeth am gyfnod byrrach, neu gall arwain at bwyllgor yn ysgrifennu at un o Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chwestiynau o ganlyniad i'r hyn y mae wedi'i glywed, yn hytrach na chyhoeddi adroddiad llawn.

**16.** Weithiau bydd y pwyllgor yn gofyn i rai o'i aelodau ffurfio pwyllgor bach (neu 'is-bwyllgor') i edrych ar faes neu eitem o ddiddordeb penodol.

**17.** Er mwyn eu helpu i wneud eu gwaith, bydd pwyllgor yn cael cymorth gan dîm clercio (sy'n gyfrifol am weinyddu gwaith y pwyllgor o ddydd i ddydd) a nifer o swyddogion eraill. Disgrifir rolau'r swyddogion hyn yn y dudalen Pwyllgorau: Pwy yw pwy?

# Paratoi tystiolaeth ysgrifenedig neu ddigidol

## Yr 'alwad am dystiolaeth ysgrifenedig'



**18.** Pan fydd pwyllgorau'n dechrau ymchwilio i fater, byddant fel arfer yn anfon cais cyffredinol am wybodaeth i'w helpu gyda'u gwaith. Cyfeiria pwyllgorau at hyn yn aml fel 'galwad am dystiolaeth'. Gallai hyn gyfeirio at brif themâu'r ymchwiliad, neu gallai ofyn cwestiynau penodol.

**19.** Caiff yr alwad hon am dystiolaeth ei harddangos fel arfer ar dudalen we'r pwyllgor a chaiff datganiad i'r wasg ei anfon at bapurau newydd a chyfryngau eraill. Gall unrhyw un ymateb i alwad am dystiolaeth. Fel arfer, bydd pwyllgor hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau y mae'n credu y bydd ganddynt ddiddordeb yn yr ymchwiliad, neu sefydliadau yr hoffai glywed ganddynt yn benodol.

**20.** Bydd yr alwad am dystiolaeth yn gwahodd partïon sydd â diddordeb i ysgrifennu at y pwyllgor cyn y dyddiad cau penodol. Gellir rhoi tystiolaeth i bwyllgorau yn ysgrifenedig neu drwy glip fideo / sain. Mae'r Senedd yn arfer cyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor ar ei gwefan, er mwyn i'r dystiolaeth ddod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus.

**21.** Mae pwyllgorau'n croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnir i sefydliadau sydd â pholisïau neu gynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus.

**22.** Bydd pwyllgorau'n aml yn defnyddio tystiolaeth i benderfynu a hoffent wahodd sefydliad neu unigolyn i ddod i gyfarfod i drafod materion ymhellach. Fodd bynnag, bydd amserlen ymchwiliad weithiau'n golygu bod cyfarfodydd wedi'u trefnu cyn i'r dystiolaeth ddod i law (yn enwedig pan fydd pwyllgorau'n ymchwilio i ddeddfau).

**23.** Gellir rhoi tystiolaeth fel ymateb i alwad pwyllgor am dystiolaeth, neu gall pwyllgor ofyn amdani ar gyfer cyfarfod penodol.

## Pa wybodaeth y dylech ei chynnwys?

**24.** Bydd galwad pwyllgor am dystiolaeth yn rhoi gwybodaeth i chi am y materion y bydd yn ymchwilio iddynt yn ei ymchwiliad, y ‘cylch gorchwyl’ (pa feysydd y bydd yr ymchwiliad yn edrych arnynt) ac unrhyw gwestiynau penodol y mae’r pwyllgor yn dymuno cael atebion iddynt. Dylai eich tystiolaeth ganolbwyntio ar y materion hyn, gan fod pwyllgor yn annhebygol o edrych ar unrhyw wybodaeth am faterion y tu allan i’r maes penodol y mae’n edrych arno.

**25.** Os bydd pwyllgor wedi gofyn cwestiynau penodol, nid oes angen i chi ymateb iddynt i gyd, ond bydd strwythuro’ch atebion o amgylch y cwestiynau hyn yn helpu’r pwyllgor i wneud ei waith yn fwy effeithiol.

**26.** Mae rhai pethau na ddylai eich tystiolaeth gyfeirio atynt, gan gynnwys materion sy’n destun achos llys ar y pryd, neu faterion sydd ar fin mynd i lys. Os credwch y gallai hyn ddigwydd, trafodwch â chlerc y pwyllgor sut y gallai hyn effeithio ar y dystiolaeth ysgrifenedig yr ydych yn dymuno’i chyflwyno.

**27.** Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai ein bod wedi cael cais gennych i'ch cyfraniad fod yn ddienw. Rhaid i chi roi gwybod i ni os nad ydych am i ni gyhoeddi eich enw ochr yn ochr â'ch tystiolaeth.

**28.** Os ydych o dan 13 oed, ni fyddwn yn gallu derbyn eich tystiolaeth heb awdurdodiad gan eich rhiant neu warcheidwad. Gellir darparu hyn drwy e-bost. Ni fyddwn yn cyhoeddi enwau unigolion o dan 18 oed ochr yn ochr â'u tystiolaeth.

**29.** Efallai y byddwch yn cynnwys gwybodaeth yn eich tystiolaeth y gellid ei defnyddio i adnabod trydydd parti, fel rhiant, priod neu berthynas. Yn yr achosion hyn, bydd angen i chi gadarnhau bod gennych eu cytundeb i rannu gwybodaeth amdanynt a'u bod yn deall y caiff ei chyhoeddi. Yn dibynnu ar natur y dystiolaeth (er enghraifft, os yw'n ymwneud â chyflwr meddygol), efallai y bydd angen i ni ofyn i chi ddarparu prawf bod gennych eu cytundeb. Byddwn yn cysylltu i drafod hyn os oes angen.

# Sut y dylech roi eich tystiolaeth ysgrifenedig ynghyd?

**30.** Fel rheol nid oes arddull ragnodedig, na gofynion penodol, ar gyfer gosod tystiolaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a anfonir at bwyllgorau fel arfer yn cael ei chyhoeddi ar y rhyngrwyd, ac mae'r Senedd yn ceisio sicrhau bod ei holl dudalennau gwe yn hygyrch er mwyn:

- galluogi pobl ag anableddau i ganfod, deall, llywio a rhyngweithio â gwybodaeth ar y we; ac
- ymateb i anghenion pobl sy'n defnyddio cysylltiadau rhyngrwyd araf, neu'n defnyddio dyfeisiau symudol.

**31.** Gallwch chi helpu'r Senedd i fodloni canllawiau hygyrchedd cynnwys gwe (a galluogi mwy o bobl i gael mynediad i'ch tystiolaeth) trwy ddilyn y canllawiau isod.

Sicrhewch eich bod yn:

- cadw'r ddogfen yn gryno – tua 3,000 o eiriau ar y mwyaf;
- ceisiwch osgoi acronymau a thalfyriadau. Os byddwch yn eu defnyddio, sicrhewch eu bod yn cael eu hysgrifennu'n llawn y tro cyntaf i chi eu defnyddio;
- cyflwynwch eich papur fel un ddogfen (dogfen Word os yn bosibl), gyda'r holl dablau, taenlenni ac atodiadau wedi'u cynnwys yn y papur;
- defnyddiwch benawdau er mwyn cael strwythur (rydym yn argymell defnyddio fformatio geiriau safonol Pennawd 1, Pennawd 2, ac ati);
- os ydych chi'n cynnwys lincs yn eich papur, dylid eu hysgrifennu fel disgrifiadau o ble y bydd darllenydd yn mynd, pe byddent yn dilyn y ddolen honno (h.y. dim 'cliciwch yma');
- dylech ond gynnwys tablau pan fyddant yn angenrheidiol at ddibenion cyflwyno cynnwys strwythuredig. Os ydych chi'n defnyddio tablau, gwnewch yn siŵr bod y tabl yn y papur ei hun (h.y. peidiwch â chynnwys delwedd o dabl). Sicrhewch fod tabl yn cynnwys rhesi a cholofnau wedi'u labelu. Dylai unrhyw nodiadau i'r tabl fod fel testun ar wahân (h.y. ni ddylid eu cyflwyno trwy greu rhesi ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig â phenawdau'r colofnau). Os ydych chi'n darparu taenlenni Excel, gwnewch yn siŵr eu bod yn 'barod i'w hargraffu' fel y gellir cynhyrchu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn hawdd i allbwn y gellir ei argraffu ar bapur A4, heb fod angen addasu'r data sydd wedi'i gynnwys ynddo;
- dylech gynnwys 'alt-text' ar gyfer unrhyw ddelweddau a ddefnyddir yn eich dogfen. Alt-text yw darn o destun 'cudd' sy'n disgrifio delwedd a ddefnyddir ar dudalen we neu gyfryngau electronig eraill, os nad yw'r gwyliwr yn gallu gweld y ddelwedd ei hun am unrhyw reswm. I ychwanegu Alt Text, fel arfer, yn dibynnu ar eich meddalwedd, bydd angen i chi dde-glicio ar y llun, dewis 'Format Picture' ac yna'r eicon '' (Layout and Properties). Yna byddwch chi'n gallu dewis 'Alt Text.' Os ydych chi'n ansicr ynghylch pa alt-text i'w ysgrifennu, rydym yn argymell ceisio dychmygu disgrifio'r ddelwedd i rywun dros y ffôn.
- dylech alinio testun â'r ymyl chwith;

- defnyddiwch ffont maint 12 o leiaf (lliw du);
- dylech ddefnyddio cyn lleied â phosibl o ddefnydd o ffont trwm, tanlinellu ac italig;
- defnyddiwch baragraffau wedi'u rhifo;
- defnyddiwch bapur maint A4 ar ffurf portread;
- dylech gynnal ymyl tudalen 1.5cm (mae troednodiadau'n iawn, ond gall penawdau/troedynnau achosi trafferthion);
- os ydych am gynnwys rhifau tudalennau, dylech eu gosod ar ochr chwith neu ochr dde'r dudalen (er mwyn osgoi gwrthdaro â rhifau tudalennau pecynnau mawr y Senedd ei hun);
- anfonwch gopi o'ch tystiolaeth ysgrifenedig dros e-bost at y tîm clercio erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno;
- cyflwynwch bapurau mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag unrhyw bolisïau gwybodaeth gyhoeddus sydd gan eich sefydliad (e.e. polisi gwybodaeth ddwyieithog).

Peidiwch â:

- chyfeirio at y pwyllgor fel Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru na WAG. Nid yw pwyllgorau'r Senedd yn rhan o Lywodraeth Cymru, ac mae pwyllgorau'r Senedd yn cynnwys Aelodau o'r Senedd o'r holl bleidiau gwleidyddol;
- defnyddio newidiadau wedi'u tracio, marciau adolygu na sylwadau;
- anfon eich tystiolaeth ysgrifenedig yn uniongyrchol at aelodau'r pwyllgor.
- cyflwyno dogfen PDF gyda marc diogelwch;
- cynnwys eich cyfeiriad na'ch rhif ffôn yn nhestun eich papur.

# Tystiolaeth ddigidol

**32.** Os hoffech gyflwyno tystiolaeth fideo neu sain, cysylltwch â'r tîm clercio i gael cyngor ar y ffordd orau i wneud hyn.

**33.** Peidiwch â chyflwyno unrhyw ffeiliau digidol (sain neu fideo) sydd wedi'u hymgorffori mewn dogfen arall. Mae angen i ni allu cyhoeddi pob ffeil ar wahân.

# Sut i gyflwyno'ch tystiolaeth

**34.** Mae'n well gan bwyllgorau gael tystiolaeth drwy e-bost (at ddibenion ymarferol a chynaliadwyedd). Atodwch eich dogfen neu eich ffeil sain/fideo a'ch llythyr at e-bost a'i anfon at flwch e-bost y pwyllgor. Bydd y cyfeiriad e-bost yng ngalwad y pwyllgor am dystiolaeth, ac fe'i dangosir hefyd ar dudalennau gwe'r pwyllgor.

**35.** Ynghyd â'ch cyflwyniad, rydym yn argymell bod eich e-bost yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- eich enw a'ch manylion cyswllt fel y person neu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r dystiolaeth;
- a yw eich tystiolaeth yn cael ei chyflwyno gan unigolyn neu ar ran sefydliad;
- a hoffech i'r pwyllgor drin eich holl dystiolaeth ysgrifenedig, neu unrhyw ran ohoni, yn gyfrinachol, gyda rhesymau dros y cais;
- Os ydych o dan 13 oed, awdurdodiad eich rhiant neu warcheidwad;
- Cadarnhad eich bod dros 18 oed;
- Cadarnhad a fyddai'n well gennych i'ch enw beidio â chael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch tystiolaeth;
- Os yw'n briodol, cadarnhad bod gennych gytundeb trydydd parti (fel rhiant, priod neu berthynas) i rannu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i'w hadnabod a'u bod yn deall y caiff ei chyhoeddi.

**36.** Fel arall, gallwch anfon copi caled o'ch papurau. Anfonwch hwy at y tîm clercio, i'r cyfeiriad a roddir yn yr alwad am dystiolaeth.

**37.** Os ydych yn poeni na allwch anfon eich tystiolaeth erbyn y dyddiad cau, siaradwch â'r tîm clercio. Efallai y gallant eich helpu, yn dibynnu ar derfynau amser y pwyllgor ei hun gydag ymchwiliad arbennig.

# Sut y caiff fy nhystiolaeth ei defnyddio?

**38.** Gellir defnyddio'r dystiolaeth ysgrifenedig a digidol a anfonwyd at bwyllgor mewn nifer o ffyrdd:

- gan aelodau'r pwyllgor i lywio'u hymchwiliad;
- i ganfod pryd byddai ymchwilio ymhellach i wybodaeth yn ddefnyddiol (fel trefnu sesiwn tystiolaeth lafar);
- tynnu sylw at faterion penodol yn ei adroddiad;
- cefnogi'r argymhellion y mae'r pwyllgor yn dymuno eu gwneud;
- craffu ar Lywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus cysylltiedig) drwy ddarparu materion y mae'r pwyllgor yn dymuno ymchwilio iddynt.

**39.** Mae 'craffu' yn golygu gofyn cwestiynau i'r Llywodraeth, a'i dwyn i gyfrif am ei phenderfyniadau.

# Cyhoeddi tystiolaeth



**40.** Ar ôl cael tystiolaeth, bydd y pwyllgor fel arfer yn sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael ar ei dudalennau ar y we, er y gall pwyllgorau hefyd benderfynu peidio â chyhoeddi dogfennau sy'n cynnwys deunydd sensitif.

**41.** Ni fydd y Senedd yn cyhoeddi gwybodaeth y mae'n credu sy'n wybodaeth bersonol (ac eithrio barn bersonol, data personol sy'n eich enwi fel awdur y dystiolaeth, ac ym mha rinwedd, os o gwbl, rydych yn darparu'r dystiolaeth – er enghraifft, eich enw a theitl eich swydd). Fodd bynnag, pe bai cais am wybodaeth yn cael ei gyflwyno o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gallai fod angen datgelu gwybodaeth bersonol arall a ddarparwyd gennych. Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth (ar wahân i ddata personol) y teimlwch nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd, neu os nad ydych yn dymuno datgelu'ch hunan fel awdur y

dystiolaeth, mae'n rhaid i chi nodi hynny'n glir. Dylech nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hynny.

**42.** Bydd y Senedd yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth. Mae'n bosibl y gall cyfyngu ar eich tystiolaeth effeithio ar y ffodd y gall y pwyllgor ei defnyddio.

# Pwyllgorau: pwy yw pwy?

**43.** Mae pwyllgor yn cynnwys Aelodau o'r Senedd o'r gwahanol bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Mae un o'r Aelodau hynny yn cael ei ethol gan y Senedd i fod yn gadeirydd y pwyllgor. Yn ystod cyfarfod pwyllgor, bydd Cadeirydd y pwyllgor yn eistedd ym mhen y bwrdd fel arfer, ac mae'n gyfrifol am redeg y cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn ceisio sicrhau bod pob aelod o'r pwyllgor yn cael yr un cyfle i ofyn cwestiynau a bod pob tyst yn cael yr un cyfle i ymateb.

**44.** Mae nifer yr aelodau ar bwyllgor yn amrywio. Bydd tudalen we pwyllgor yn rhestru enwau Aelodau o'r Senedd sy'n rhan o'r pwyllgor.

**45.** Os na all Aelod fynd i gyfarfod penodol o'r pwyllgor, gallant ofyn i aelod arall o'i blaid wleidyddol fod yn bresennol yn ei le.

**46.** Nid yw Gweinidogion yn aelodau o bwyllgorau.



**47.** Yn ogystal ag aelodau'r pwyllgor, gall nifer o swyddogion fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor:

- mae clerc y pwyllgor yn cynghori'r cadeirydd ar faterion gweithdrefnol ac mae'n gyfrifol am redeg busnes y pwyllgor yn gyffredinol;
- mae dirprwy glerc y pwyllgor yn cynorthwyo'r clerc gyda'i ddyletswyddau ac yn gwneud nodiadau o'r materion allweddol sy'n codi yn ystod y cyfarfod;

- mae swyddog Cofnod y Trafodion yn gwneud nodiadau drwy gydol y cyfarfod er mwyn cyhoeddi trawsgrifiad llawn o’r trafodion;
- mae ymchwilydd neu ymchwilwyr yn darparu nodiadau briffio ysgrifenedig i aelodau’r pwyllgor ynghyd â rhagor o gyngor neu wybodaeth yn ystod y cyfarfod os oes angen. Maent yn dilyn trafodion y cyfarfod er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol;
- mae cynghorydd neu gynghorwyr cyfreithiol yn cynghori’r pwyllgor ar bwyntiau yn ymwneud â’r gyfraith ac unrhyw faterion cyfreithiol sy’n codi yn ystod y cyfarfod;
- mae swyddog cymorth y pwyllgor yn tywys y tystion i mewn ac allan o’r ystafell gyfarfod ac yn egluro’r agweddau ymarferol iddynt, fel sut i ddefnyddio’r clustffonau. Mae swyddog cymorth y pwyllgor wrth law i gynorthwyo’r clerc a’r dirprwy glerc yn ystod y cyfarfod;
- mae cyfieithwyr ar y pryd a pheirianwyr darlledu yn bresennol yn y cefndir mewn cyfarfodydd (tu ôl i'r sgriniau gwydr tywyll yn yr ystafelloedd pwyllgora neu fel cyfranogwyr heb fideo ar gyfer cyfarfodydd o bell), i ddarparu cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg ac i sicrhau bod unrhyw dechnoleg a ddefnyddir yn y cyfarfod yn gweithio’n iawn.



# Paratoi i fynd i gyfarfod pwyllgor

**48.** Os gofynnwyd i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor, mae'n debyg y gofynnwyd i chi ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw hefyd. Bydd hyn o gymorth i aelodau'r pwyllgor baratoi eu cwestiynau. Mae hefyd yn ddefnyddiol er mwyn cofnodi gwybodaeth ffeithiol.

**49.** Mae llawer o bobl yn defnyddio'r un wybodaeth ar gyfer cyfarfod pwyllgor a ddarparwyd ganddynt (neu y maent wrthi'n ei darparu) mewn ymateb i alwad pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig a digidol. Os hoffech wneud hyn, rhowch wybod i'r tîm clercio.

**50.** Os hoffech ddarparu rhagor o wybodaeth, rhowch wybod i'r tîm clercio. Bydd y tîm yn rhoi gwybod i chi am y dyddiadau cau.

## Clywed tystiolaeth lafar

**51.** Fel arfer bydd y pwyllgor yn gwahodd pobl i ateb cwestiynau am destun yr ymchwiliad. Gwneir hyn mewn cyfarfod pwyllgor a elwir yn 'sesiwn tystiolaeth lafar'.

**52.** Cynhelir sesiynau tystiolaeth lafar yn gyhoeddus fel arfer, a gall pobl eu gwylio ar-lein neu fynd i'r cyfarfod ei hun. Bydd aelodau'r pwyllgor yn gofyn cwestiynau i bobl sy'n rhoi gwybodaeth iddynt (cyfeirir atynt yn aml fel 'tystion'), a hynny fel arfer am y materion a ddisgrifiwyd yn eu tystiolaeth ysgrifenedig neu fideo/sain.

**53.** Bydd y cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar Senedd TV. Mae Senedd TV yn darlledu holl gyfarfodydd y Senedd i bobl eu gwylio ar-lein (gallwch hefyd wylio recordiadau o gyn-gyfarfodydd pwyllgor ar www.senedd.tv). Caiff cofnod ysgrifenedig (neu 'drawsgrifiad') ei gyhoeddi, a chaiff ei anfon at y tystion er mwyn iddynt ei wirio, wythnos ar ôl y cyfarfod. Caiff trawsgrifiad drafft ei gyhoeddi ar dudalennau gwe'r pwyllgor wythnos ar ôl y cyfarfod.



**54.** Gelwir pobl sy'n siarad mewn pwyllgorau'n aml yn 'dystion'. Gall y gair hwn godi ofn ar rai pobl, ond y cyfan mae'n golygu yw y bydd y pwyllgor yn gofyn i chi am wybodaeth ychwanegol i helpu gyda'r ymchwiliad.

**55.** Bydd pwyllgor yn trafod ac yn cytuno ar restr o dystion y maent am eu gwahodd i siarad â hwy. Cyfeirir at y broses hon yn aml fel 'rhoi tystiolaeth lafar'. Bydd tîm clercio'r pwyllgor yn cysylltu â'r bobl hynny i'w gwahodd i ddod i gyfarfod pwyllgor.

**56.** Yn ystod y Bumed Senedd, hyd nes pandemig COVID-19, roedd pwyllgorau fel arfer yn cyfarfod mewn ystafell bwyllgora yn adeilad y Senedd, ond gallai gyfarfod yn Nhŷ Hywel hefyd (yr adeilad bric coch sydd y tu ôl i'r Senedd), neu mewn lleoliadau eraill ledled Cymru yn achlysurol. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgor yn gyhoeddus, gyda lle ar gael yn yr orielau cyhoeddus i bobl ddod i wylio.

**57.** O dan weithdrefnau brys a gyflwynwyd o ganlyniad i Covid-19 i amddiffyn iechyd y cyhoedd, gall pwyllgorau hefyd gwrdd o bell ar-lein drwy gynhadledd fideo. Gall hyn fod naill ai'n gyfarfod o bell yn llwyr, neu'n gyfarfod ar ffurf 'hybrid', pan fydd rhai pobl mewn ystafell bwyllgor ac eraill yn ymuno trwy gynhadledd fideo o leoliadau eraill. Bydd y tîm clercio yn rhoi cyngor ac arweiniad i dystion ar sut y bydd cyfarfod y pwyllgor yn gweithio a beth i'w ddisgwyl. Bydd cyfarfodydd a gynhelir o bell trwy gynhadledd fideo yn dal i gael eu darlledu ar Senedd TV.

**58.** Gall pwyllgorau naill ai gymryd tystiolaeth gan un sefydliad neu unigolyn ar y tro, neu gallant drefnu sefydliadau neu unigolion i mewn i baneli.

**59.** Defnyddir paneli fel arfer os bydd pwyllgor yn dymuno gofyn cwestiynau tebyg i nifer o wahanol dystion. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os oes gan bwyllgor amser cyfyngedig i gymryd tystiolaeth. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i dystion sy'n gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â meysydd gwahanol o'r un mater.

**60.** Gall aelodau pwyllgor ofyn cwestiynau i'r panel cyfan, neu eu cyfeirio at dyst penodol. Os ydych yn rhoi tystiolaeth ar yr un pryd â thyst arall, nid oes yn rhaid i chi ateb cwestiwn os ydych yn fodlon bod tyst arall eisoes wedi ei ateb. Gallwch ddweud wrth y pwyllgor eich bod yn cytuno â'r ateb a ddarparwyd gan y tyst arall.



# Paratoi ar gyfer cyfarfod pwyllgor

**61.** Bydd tîm clercio'r pwyllgor yn cysylltu â chi ynglŷn â rhoi tystiolaeth cyn cyfarfod y pwyllgor. Bydd hyn o leiaf dair wythnos cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer, er y gall hyn amrywio, yn enwedig os yw'r pwyllgor yn edrych ar gyfraith newydd bosibl ('craffu ar ddeddfwriaeth').

**62.** Gofynnir i chi ddarparu papur ysgrifenedig i'r pwyllgor fel arfer tua deg diwrnod gwaith cyn y cyfarfod er mwyn nodi'ch barn ar y materion sy'n cael eu hystyried gan y pwyllgor. Bydd y mwyafrif o'r cwestiynau y bydd y pwyllgor yn eu gofyn i chi yn seiliedig ar y materion yr ydych wedi'u nodi yn eich papur.

**63.** Os na allwch roi tystiolaeth lafar i'r pwyllgor yn bersonol, cysylltwch â'r tîm clercio a gallant drafod opsiynau eraill â chi. Gallai'r rhain gynnwys rhoi tystiolaeth drwy linc fideogynadledda neu sain yn unig. Gwnewch hyn cyn gynted â phosibl ymlaen llaw er mwyn gwneud y trefniadau addas.

**64.** Mae sesiynau tystiolaeth mewn pwyllgor wedi'u cyfyngu gan amser, ac fel tyst byddwch yn ymateb i gwestiynau gan Aelodau o'r Senedd yn hytrach na rhoi cyflwyniad (felly nid yw PowerPoint ar gael fel arfer).

# Sut y gall tîm clercio'r pwyllgor eich helpu chi

**65.** Bydd tîm clercio'r pwyllgor yn rhoi gwybod i chi am union ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod o leiaf wythnos cyn y cyfarfod, ac yn trefnu i chi gael copi o'r agenda a phapurau'r cyfarfod cyn gynted â phosibl.

**66.** Gall y tîm clercio hefyd roi gwybod i chi a fydd tystion eraill yn ymddangos yn yr un sesiwn â chi. Os bydd tystion eraill yn ymddangos o'ch blaen, gallwch ddewis bod yn bresennol yn gynharach er mwyn gwrando ar y dystiolaeth a roddir gan y tystion eraill. Bydd y wybodaeth hon hefyd ar gael ar agenda'r cyfarfod.

**67.** Gall y tîm clercio roi cyngor i chi ar yr hyn y gallai'r pwyllgor ei ofyn i chi, er mwyn eich helpu i baratoi ar gyfer y sesiwn. Fodd bynnag, penderfyniad y pwyllgor fydd rhoi brîff i chi o flaen llaw neu beidio, a gall pwyllgor ofyn cwestiynau sydd y tu allan i'r brîff a roddwyd.

**68.** Mae llefydd mewn cyfarfodydd pwyllgor, boed yn bersonol, yn hybrid neu o bell, yn gyfyngedig. Fel arfer, nid yw'n bosibl i fwy na dau berson o un sefydliad fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor, a dim ond un fel arfer os byddwch yn rhoi tystiolaeth ar yr un pryd â thystion o sefydliadau eraill. Os ydych yn gwybod ymlaen llaw bod sawl person o'ch sefydliad am fod yn bresennol mewn cyfarfod yn y Senedd, gall y tîm clercio helpu drwy drefnu seddi yn yr oriel gyhoeddus neu, o bosibl, y tu ôl i fwrdd y Pwyllgor; ond, bydd hyn yn dibynnu ar faint o le sydd ar gael.

**69.** Mae pwyllgorau'n deall y gall rhoi tystiolaeth lafar mewn pwyllgor ffurfiol godi ofn ar rai pobl. Cyn belled â bod lle yn y cyfarfod, caniateir i dystion ddod â rhywun gyda nhw i roi cymorth. Ni fydd y person hwnnw yn rhoi tystiolaeth yn y cyfarfod (ac yn aml ni fyddant yn eistedd wrth y bwrdd yn yr ystafell gyfarfod) gan nad ydynt yn dyst, ond gallant roi cymorth emosiynol drwy fod yn bresennol yn yr ystafell. Mae rhieni, athrawon ac arweinwyr ieuenctid wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd yn y gorffennol yn y rôl hon. Gall y tîm clercio roi cyngor penodol ar rôl y person sy'n rhoi cymorth, yn ôl y gofyn.

**70.** Rôl y tîm clercio yw eich helpu chi i roi'r dystiolaeth orau y gallwch chi. Gallwch hefyd ofyn i'r tîm clercio helpu gydag unrhyw ran o'r broses. Yn benodol gallant eich helpu drwy:

- egluro unrhyw jargon/geiriau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd pwyllgor nad ydych yn gyfarwydd â nhw (e.e. 'tystiolaeth', 'tyst', 'ymchwiliad', 'craffu'....);
- egluro'r hyn fydd yn digwydd cyn, yn ystod ac ar ôl i chi roi tystiolaeth;
- eich helpu i ymgyfarwyddo ag adeiladau a phrosesau'r Senedd (er enghraifft, efallai y byddwch yn dymuno gwylio cyfarfod pwyllgor cynharach, naill ai mewn person neu drwy Senedd TV);
- eich helpu chi i ymgyfarwyddo â Zoom neu unrhyw un o'r rhaglenni cyfrifiadurol neu offer technegol a ddefnyddir gan y Pwyllgor;
- egluro'r rheolau'n ymwneud â gweithdrefnau'r pwyllgor, cod gwisg ac ymddygiad mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.

# Sut y gallwch chi helpu tîm clercio'r pwyllgor

**71.** Mae angen i'r tîm clercio gael y wybodaeth ganlynol cyn i chi ddod i unrhyw gyfarfodydd:

- enwau a theitl swyddi'r bobl fydd yn ymddangos fel tystion. Pan mai sefydliad yw'r tyst, y sefydliad sydd fel arfer yn penderfynu pa rai o'i aelodau neu staff ddylai ddod i'r cyfarfod, ond weithiau gall Pwyllgorau ofyn i unigolion neu ddeiliaid swyddi penodol fod yn bresennol. Os nad ydych wedi rhoi enwau'r cynrychiolwyr o'ch sefydliad i'r tîm clercio, gall tîm diogelwch y Senedd wrthod rhoi mynediad iddynt i'r ystafell lle cynhelir y cyfarfod;
- os oes gennych chi unrhyw anghenion penodol (er enghraifft, os oes gennych nam ar eich golwg neu anghenion penodol o ran mynediad). Mae adeilad y Senedd ac ystafelloedd pwyllgora Tŷ Hywel yn hollol hygyrch i bobl anabl, a gallwn wneud trefniadau ychwanegol os rhoddir gwybod i ni ymlaen llaw.
- os ydych yn gwybod am faterion a allai godi yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar sydd gerbron llys barn ar y pryd, neu achos llys sydd ar fin digwydd, a'ch bod yn rhagweld y gallai'r mater godi, dylech drafod hyn gyda chlerc y pwyllgor;

# Mynd i Gyfarfod Pwyllgor: ar ddiwrnod y cyfarfod

## Cyrraedd

**72.** Mae'r adran hon yn ymwneud â mynd i gyfarfod yn y Senedd neu yn Nhŷ Hywel. Os ydych chi'n mynd i gyfarfod trwy gynhadledd fideo neu mewn adeilad gwahanol bydd y tîm Clercio yn rhoi cyfarwyddiadau ar wahân i chi ar sut i wneud hynny.

**73.** Mae dau faes parcio cyhoeddus ger y Senedd, sy'n codi tâl bychan am arhosiad byr. Mewn amgylchiadau arbennig, gellir neilltuo man parcio ar gyfer ymwelydd yn y Senedd drwy gysylltu â'r tîm clercio. Os byddwch wedi gofyn am neilltuo man parcio ar gyfer yr anabl, bydd hwn gerllaw'r Senedd, drwy'r atalfa o flaen Tŷ Hywel. Mae'r rhain hefyd yn amodol ar a ydynt ar gael a bydd rhaid cyflwyno Bathodyn Glas dilys wrth gyrraedd.

**74.** Rydym yn argymell eich bod yn cyrraedd o leiaf 20 munud cyn yr amser y trefnwyd i chi roi tystiolaeth lafar i'r pwyllgor. Caiff pob ymwelydd â'r Senedd archwiliad diogelwch fel sy'n digwydd mewn maes awyr. Ar ôl mynd drwy'r sganwyr diogelwch, ewch i'r dderbynfa yn y Senedd. Bydd staff y dderbynfa yn cymryd eich enw, yn rhoi pàs diogelwch i chi ac yn eich cyfeirio i lawr y grisiau i ystafell aros y tystion, lle mae'n bosibl y bydd tystion eraill hefyd yn aros. Gall staff y dderbynfa argraffu agendâu cyfarfodydd ar gais.

**75.** Cynhelir sesiynau tystiolaeth lafar yn yr Ystafelloedd Pwyllgora yn Nhŷ Hywel hefyd. Os byddwch yn rhoi tystiolaeth yn un o'r ystafelloedd hyn, gofynnir i chi (ymlaen llaw gan y tîm clercio) fynd i fynedfa Tŷ Hywel. Yno, byddwch yn cael archwiliad diogelwch fel sy'n digwydd mewn maes awyr, rhoddir pàs diogelwch i chi yn nerbynfa Tŷ Hywel ac fe'ch cyfeirir i ystafell aros.

**76.** Bydd swyddog cymorth y pwyllgor fel arfer yn eich cyfarfod yn ystafell aros y tystion (naill ai yn y Senedd neu yn Nhŷ Hywel), a bydd yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Bydd hefyd yn dangos sut i ddefnyddio'r clustffonau sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod a hefyd sut i gynyddu'r sain os oes angen.



**77.** Pan fydd y pwyllgor yn barod, bydd y swyddog cymorth yn dod i'ch nôl o'r ystafell aros ac yn mynd â chi i'r ystafell bwyllgora.

**78.** Os ydych chi'n darparu tystiolaeth lafar trwy gynhadledd fideo, bydd y tîm clercio fel arfer yn sefydlu'r cyswllt fideo gyda chi yn ystod egwyl yn y cyfarfod ffurfiol cyn dechrau eich tystiolaeth i sicrhau bod popeth yn gweithio'n gywir ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

# Yn ystod y cyfarfod

**79.** Ar ôl i chi fynd i mewn i'r ystafell bwyllgora, efallai y gofynnir i chi wneud datganiad agoriadol byr i aelodau'r pwyllgor cyn iddynt ddechrau gofyn cwestiynau. Gallwch ddewis derbyn neu wrthod y cynnig hwn (os byddwch am wrthod y cynnig hwn, dywedwch eich bod yn hapus iddynt fynd yn syth at y cwestiynau).

**80.** Bydd aelodau'r pwyllgor wedi cael eich papur cyn y cyfarfod, felly dylai datganiad agoriadol fod yn fyr iawn. Gellir cyfyngu eich sylwadau agoriadol i gyflwyno eich hun (neu eich sefydliad), beth yw eich diddordeb yn yr ymchwiliad, ac o bosibl, un neu ddau fater allweddol yr hoffech i Aelodau roi ystyriaeth arbennig iddynt. Bydd Aelodau wedyn yn gofyn cwestiynau, ar sail eich tystiolaeth yn y lle cyntaf, ond hefyd gan ystyried gwybodaeth arall a gafwyd.

**81.** Mae pwyllgorau'r Senedd yn gweithredu'n ddwyieithog. Mae croeso i chi annerch y pwyllgor ac ateb cwestiynau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gall Aelodau hefyd ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall yn ystod trafodion. Yn ystod y cyfarfod bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael o'r Gymraeg i'r Saesneg.

**82.** Os teimlwch nad oes gennych y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ateb cwestiwn, neu os oes gwybodaeth fanylach a all fod yn ddefnyddiol i gefnogi'ch ateb, gallwch gynnig anfon nodyn at y pwyllgor sy'n cynnwys y wybodaeth

berthnasol. Yn yr un modd, gall aelodau'r pwyllgor ofyn i chi ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi'ch ateb. Dylid rhoi'r wybodaeth hon i'r tîm clercio cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod.

**83.** Yn ystod y cyfarfod, os byddwch yn teimlo bod mynegi barn ar gwestiwn penodol y tu allan i gylch gwaith eich rôl, neu fod cwestiwn yn 'annheg', gallwch ddweud hynny wrth gadeirydd y pwyllgor. Er hynny, efallai y gofynnir i chi geisio ateb y cwestiwn os bydd y pwyllgor yn penderfynu ei bod yn rhesymol i chi wneud hynny.


**84.** Mae ystafell bwyllgora wedi'i gosod ar ffurf ystafell fwrdd fel arfer, gyda meicroffonau wedi'u gosod o amgylch y bwrdd. Mae angen y meicroffonau at ddibenion cyfieithu ar y pryd, chwyddo'r sain a darlledu. Mae golau coch yn dangos bod eich meicroffon yn gweithio. Caiff hyn ei reoli gan y peiriannydd darlledu sy'n gwylio'r trafodion, felly nid oes angen i chi bwyso unrhyw fotymau. Peidiwch â symud y meicroffonau gan fod hyn yn effeithio ar ansawdd y sain yn yr ystafell.



**85.** Cynhelir y rhan fwyaf o fusnes pwyllgorau yn gyhoeddus a chaiff ei ddarlledu'n fyw ar y rhyngrwyd ar wefan Senedd TV. Cyhoeddir trawsgrifiad gair am air o bob cyfarfod cyhoeddus. Caiff pob sesiwn ei chadw mewn archif a gellir ei gwylio ar wefan Senedd TV. Gall y cyfarfod hefyd gael ei ddarlledu ar BBC Democracy Live ac ar y teledu yn ddiweddarach (ar hyn o bryd, gellir dangos y trafodion ar S4C a BBC Parliament).

# Ar ôl y cyfarfod

**86.** Ar ôl y cyfarfod anfonir copi o’r trawsgrifiad drafft atoch i’w gywiro, ynghyd â nodiadau cyfarwyddyd yn dweud sut i roi gwybod i’r tîm clercio os oes unrhyw ffeithiau anghywir yn y testun. Gofynnir i chi ddychwelyd y drafft wedi’i gywiro erbyn dyddiad penodedig, ac wedyn caiff y trawsgrifiad ei gyhoeddi. Efallai yr anfonir ffurflen adborth atoch hefyd fel y gallwch roi gwybod i’r tîm clercio am eich profiad.




**87.** Ar ddiwedd ei ymchwiliad, bydd y pwyllgor yn ystyried yr holl dystiolaeth a gafwyd, ac yn penderfynu ar y themâu a’r materion allweddol. Wedyn, bydd yn cyhoeddi adroddiad ac argymhellion ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn yr ymchwiliad. Bydd y tîm clercio yn rhoi gwybod i chi pan gyhoeddir yr adroddiad.

# Mathau eraill o dystiolaeth

**88.** Yn ogystal â gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig, a chymryd tystiolaeth lafar, gall pwyllgor ddod o hyd i wybodaeth mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, fe allai gyhoeddi arolwg neu holiadur i gasglu barn, neu drefnu ymweliadau i gasglu gwybodaeth mewn man penodol. Mae timau clercio'n hapus i drafod ffyrdd gwahanol o gymryd tystiolaeth y credwch a allai fod yn fwy priodol i chi neu eich sefydliad.

**89.** Yn y gorffennol, mae pwyllgorau wedi casglu tystiolaeth mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys:

## Cyfarfodydd pwyllgor anffurfiol



**90.** Gellir cynnal y rhain yn y Senedd neu oddi ar y safle, ac ni chânt eu cofnodi gair am air. Mae cyfarfodydd pwyllgor anffurfiol yn golygu trafodaeth fwy hamddenol lle mae tystion yn teimlo'n gyfforddus i ofyn cwestiynau i aelodau'r pwyllgor neu i'w gilydd. Gellir cymryd nodiadau o'r trafodaethau anffurfiol os yw'r tystion yn cytuno i hynny. Gellir defnyddio'r nodiadau hyn wedyn ar gyfer 'busnes' mwy ffurfiol y pwyllgor (fel adroddiad y pwyllgor). Gall tystion fod yn anhysbys yn y nodiadau os ydynt yn dymuno. Gall cyfarfodydd a gynhelir y tu allan i'r Senedd fod mewn lleoliadau y mae'r tystion yn fwy cyfarwydd â hwy, sy'n golygu bod y trafodion yn codi llai o ofn ar y bobl sy'n cymryd rhan.

## Ymweliadau

**91.** Gall ymweliadau pwyllgor olygu bod un aelod neu ragor o bwyllgor yn ymweld â lleoliad neu brosiect penodol i ddysgu mwy amdano.

**92.** Fel arall, gallai ymweliad olygu cyfarfod â thystion yn anffurfiol, mewn lleoliad cyfarwydd i'r tystion fel arfer, er mwyn casglu tystiolaeth ac adrodd yn ôl i'r

pwyllgor. Cymerir nodiadau o'r trafodaethau weithiau, a gellir cytuno ar y rhain a'u defnyddio ar gyfer busnes mwy ffurfiol y pwyllgor (eto, fel adroddiadau pwyllgor).

# Defnyddio technoleg

**93.** Gall arolygon neu systemau pleidleisio ar-lein helpu pwyllgorau i gysylltu â chynulleidfa ehangach mewn ffordd fwy anffurfiol.



# Ystyried popeth - cyflwyno adroddiadau

**94.** Bydd y pwyllgor yn edrych ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ei ymchwiliad, ac yn cytuno ar unrhyw gynigion ('argymhellion') y mae'n dymuno eu gwneud i Lywodraeth Cymru ar sut y gallai'r Llywodraeth wella'i gwaith. Weithiau, caiff crynodeb o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth ei chyhoeddi ar gyfer y pwyllgor. Gall pwyllgorau gyflwyno adroddiad ar eu hymchwiliad mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys cyhoeddi adroddiad llawn neu ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

**95.** Caiff beth bynnag y bydd y pwyllgor yn ei lunio ei gyhoeddi fel arfer, a bydd ar gael ar dudalennau'r pwyllgor ar y we. Caiff ei anfon yn electronig at unrhyw un sydd wedi darparu tystiolaeth, a hefyd at Lywodraeth Cymru.



## Ar ôl yr adroddiad

**96.** Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed gan y pwyllgor. Mae hyn yn digwydd o fewn chwe wythnos i gyhoeddi adroddiad fel arfer. Gall pwyllgor ofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn (cyfarfod o'r 60 Aelod o'r Senedd) ar unrhyw adroddiad y mae wedi'i lunio. Mae trafod adroddiad mewn Cyfarfod Llawn yn caniatáu i Aelodau o bob plaid wleidyddol roi sylwadau ar ymchwiliad y pwyllgor ac ymateb Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn caniatáu i aelodau'r pwyllgor fynd ar drywydd materion arbennig; er enghraifft, argymhellion na chytunwyd arnynt. Gall pwyllgor ailystyried ei adroddiadau er mwyn dilyn y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran rhoi'r argymhellion ar waith.

**97.** Pan fydd pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar ddeddfwriaeth, mae'r broses ychydig yn wahanol, gan fod yr adroddiadau a'r ymatebion yn rhan o gyfnodau penodol. Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am y broses ddeddfu yn ein Canllaw i'r Broses Ddeddfu.